**Rhif: WG49440**

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

## Cynigion Eithrio Trwydded Forol

Dyddiad cyhoeddi: **22 Hydref 2024**

Camau gweithredu gofynnol: Ymatebion erbyn **14 Ionawr 2025**

# Cynnwys

**Trosolwg**

**Sut i ymateb**

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Manylion cyswllt**

**Cyflwyniad**

**Yr hyn yr ydym yn ei gynnig**

**Cynigion eithrio**

**Cwestiynau**

**Asesiad effaith**

**Canlyniad**

**Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad**

**Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data**

**Eich hawliau**

**Atodiad A – Asesiad Effaith Rheoleiddiol (drafft)**

## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar gynigion y bwriedir iddynt lywio gorchymyn o dan Ran 4, adran 74 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir i eithrio gweithgareddau penodol rhag y broses trwyddedu morol. Mae rhestr o weithgareddau y bwriedir eu heithrio rhag bod angen trwydded forol yn gynwysedig yn yr ymgynghoriad hwn.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn berthnasol pan mai Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu ar gyfer dyfroedd Cymru (rhanbarth y glannau a'r rhanbarth alltraeth).

## Sut i ymateb

Cyflwynwch eich sylwadau erbyn 14 Ionawr 2025, mewn unrhyw un o'r ffyrdd a ganlyn:

Drwy e-bost: MarineLicensingLegislationReviews@gov.wales

Drwy'r post:

Y Tîm Polisi Trwyddedu Morol
Is-adran y Môr a Bioamrywiaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Wrth ymateb, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cynrychioli barn sefydliad. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad mwy, a fyddech cystal â nodi'n glir pwy mae'r sefydliad yn ei gynrychioli ac, os yw'n berthnasol, sut y casglwyd barn yr aelodau.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac ieithoedd eraill o'r ddogfen hon ar gael trwy gais.

## Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Y Tîm Polisi Trwyddedu Morol
Is-adran y Môr a Bioamrywiaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: MarineLicensingLegislationReviews@gov.wales

This document is also available in English / Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg: hyperddolen

## Cyflwyniad

Sefydlwyd y broses trwyddedu morol o dan Ran 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ("y Ddeddf") i gefnogi a galluogi datblygu cynaliadwy yn yr ardal forol. Mae'r broses yn rheoleiddio ystod eang o weithgareddau trwyddedadwy yn yr amgylchedd morol. Diffinnir gweithgareddau trwyddedadwy o dan adran 66 o'r Ddeddf.[1] Yn gyffredinol, mae angen trwydded forol ar gyfer y canlynol:

- Dyddodi unrhyw sylwedd neu wrthrych yn y môr, neu ar wely'r môr neu oddi tano
- Adeiladu, newid neu wella unrhyw waith yn y môr neu drosto, neu ar wely'r môr neu oddi tano
- Symud unrhyw sylwedd neu wrthrych o wely'r môr
- Gwneud unrhyw fath o garthu

O dan y Ddeddf, Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu priodol ar gyfer dyfroedd Cymru (rhanbarth y glannau a'r rhanbarth alltraeth). Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gweinyddu ac yn penderfynu ar geisiadau am drwyddedau morol ar ran Gweinidogion Cymru.

Fel yr awdurdod trwyddedu priodol, gall Gweinidogion Cymru ddefnyddio pwerau o dan Ran 4 o'r Ddeddf i gyflwyno gorchymyn i eithrio gweithgareddau penodol rhag yr angen am drwydded forol. Mae esemptiadau yn galluogi gweithgareddau o ddydd i ddydd (er enghraifft, angori llong) a gweithgareddau risg isel i barhau heb fod angen trwydded, gan sicrhau eu bod yn gydnaws â chyfraith ryngwladol a domestig. Maent hefyd yn galluogi gweithredu brys yn ddi-oed.

Yn ogystal ag unrhyw esemptiad a bennir gan orchymyn, mae Rhan 4 Pennod 2 y Ddeddf hefyd yn cynnwys esemptiadau ac achosion arbennig lle nad oes angen trwydded forol. Mae'r ymgynghoriad hwn yn berthnasol i'r gweithgareddau hynny sydd wedi'u heithrio gan orchymyn o dan adran 74 o'r Ddeddf yn unig. Ni chynigir unrhyw newidiadau i Ran 4 Pennod 2 y Ddeddf.

Yn 2011, gan ddefnyddio pwerau Gweinidogion Cymru o dan adran 74 o'r Ddeddf, gwnaed Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011 (Gorchymyn Esemptiadau 2011). Wrth wneud gorchymyn i eithrio gweithgareddau, rhaid i weinidogion roi sylw i'r canlynol:

- Yr angen i warchod yr amgylchedd
- Yr angen i ddiogelu iechyd dynol
- Yr angen i atal ymyrraeth â defnyddiau cyfreithlon o'r môr
- Materion eraill y mae gweinidogion yn eu hystyried yn berthnasol, megis polisïau'r llywodraeth

Wrth i'n moroedd ddod yn brysurach ac wrth i'n dealltwriaeth a'n gwybodaeth am effeithiau posibl a'r ffordd orau o'u rheoli gynyddu, mae angen adolygu'r rhestr o weithgareddau esempt o bryd i'w gilydd. Mae gwneud hynny yn helpu i sicrhau bod y broses trwyddedu morol yn parhau i fod yn effeithlon ac yn gymesur a hefyd bod eithrio gweithgareddau'n parhau i fod yn briodol.

[1] Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (legislation.gov.uk)

Yn 2020, comisiynodd Llywodraeth Cymru Associated British Ports Marine Environmental Research Ltd (ABPmer) i gynnal adolygiad cychwynnol o Orchymyn Esemptiadau 2011 i roi cyngor ar unrhyw newidiadau y gallai fod eu hangen.

Roedd y cyngor gan ABPmer, a ategwyd gan farn rhanddeiliaid, yn argymell nifer o newidiadau i rai esemptiadau presennol i wneud geiriad rhai esemptiadau yn gliriach. Bu ABPmer hefyd yn ystyried y gweithgareddau sydd wedi'u heithrio yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban ac argymhellodd amrywiaeth o weithgareddau newydd y gellid eu hystyried ar gyfer esemptiad i sicrhau bod y rhestr o weithgareddau esempt yng Nghymru yn debycach i'r rhai a gyflwynwyd ledled y DU.

Gan adeiladu ar argymhellion yr adolygiad cychwynnol, comisiynodd Llywodraeth Cymru wyddonwyr Llywodraeth y DU yng Nghanolfan Gwyddor yr Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cefas) i roi cyngor technegol ar y newidiadau posibl. Wrth roi ei gyngor, gofynnwyd i Cefas ystyried y gweithgareddau a gynigiwyd ar gyfer esemptiad yn erbyn y meini prawf polisi a ganlyn a rhoi cyngor ar y manteision, yr heriau a'r materion ymarferol a allai ddeillio o bob esemptiad arfaethedig.

**Y meini prawf polisi a ddefnyddiwyd**:

- Ystyrir bod y gweithgaredd yn risg isel (i'r amgylchedd, iechyd dynol, a mordwyo).
- Ceir dyblygu o ran rheoleiddio â chyfundrefnau cydsynio eraill.
- Er mwyn galluogi gweithredu brys mewn rhai amgylchiadau (gwaith brys).

Wrth ddarparu ei gyngor, ymgysylltodd Cefas â sectorau allweddol, ac mae'r cyngor wedi llywio datblygiad yr esemptiadau drafft terfynol sy'n destun yr ymgynghoriad hwn.

## Yr hyn yr ydym yn ei gynnig

Rydym yn cynnig diweddaru'r rhestr o weithgareddau sydd wedi'u heithrio rhag bod angen trwydded forol yng Nghymru. Mae'r cynigion yn cynnwys cadw rhai esemptiadau presennol, diwygio rhai esemptiadau presennol, cyflwyno esemptiadau newydd, a dileu rhai esemptiadau presennol.

Mae'r Ddeddf yn caniatáu ar gyfer esemptiadau gydag amodau neu hebddynt. Mae'r gallu i osod amodau yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu'n fwy cywir pa weithgareddau y bydd neu na fydd angen trwydded forol arnynt ac o dan ba amgylchiadau. Mae'r amodau'n darparu mesurau diogelu i sicrhau nad yw gweithgareddau'n effeithio'n negyddol ar yr amgylchedd, iechyd dynol na defnyddwyr eraill y môr.

Nid yw'r broses trwyddedu morol, gan gynnwys unrhyw esemptiadau a wneir gan Weinidogion Cymru, yn rhyddhau unrhyw berson rhag gwneud cais am unrhyw ganiatâd arall a all fod yn angenrheidiol er mwyn i weithgaredd ddigwydd yn yr amgylchedd morol. Nid yw'r broses, gan gynnwys esemptiadau ychwaith, yn rhyddhau unrhyw awdurdod cyhoeddus arall rhag cyflawni ei ddyletswyddau neu ei gyfrifoldebau cyfreithiol ei hun.

## Cynigion eithrio

Hoffem glywed eich barn am y cynigion a nodir yn nhablau 1–4 isod. Gyda phob esemptiad arfaethedig, rydym wedi rhoi rheswm dros yr esemptiad.

**Dehongli**

Darperir y dehongliad canlynol i gynorthwyo dealltwriaeth o esemptiadau penodol ac mae'n berthnasol i'r termau a ddefnyddir yn y tablau canlynol. Mae'r dehongliad yn destun drafftio cyfreithiol yn dilyn ymgynghoriad, a gellir ei gynnwys mewn gorchymyn ynghyd â'r adran ddehongli gyfredol o Orchymyn 2011 neu gellir ei nodi mewn canllawiau.

| | |
|---|---|
| **Carthu cyfalaf** | Mae carthu cyfalaf yn carthu mewn ardal nad yw wedi'i charthu o'r blaen, ac i ddyfnder nad yw wedi'i garthu o'r blaen, neu i ddyfnder nad yw wedi'i dreillio o fewn y deng mlynedd diwethaf. |
| **Lefel y llanw isaf** | Yn Ynys Prydain, mae lefel y llanw isaf tua lefel y llanw seryddol isaf. |
| **Malurion** | Mae hyn yn cynnwys gweddillion o rywbeth sydd wedi'i ddinistrio neu ddarnau o ddeunydd diangen neu wedi'i daflu a allai gael ei wasgaru o gwmpas. |
| **Gwaith brys** | Mae argyfwng sy'n berthnasol i drwyddedu morol yn sefyllfa a allai, os na chaiff ei hunioni neu ei gweithredu ar frys, achosi canlyniadau difrifol i iechyd pobl, diogelwch mordwyo, yr amgylchedd neu eiddo, gan gynnwys seilwaith sy'n eiddo i'r cyhoedd.<br><br>Nid yw esemptiadau sy'n galluogi gwaith i gael ei wneud i ddelio â sefyllfa o argyfwng yn berthnasol lle bu methiant i gynnal ased cyn sefyllfa o argyfwng. |
| **Awdurdod gorfodi** | Mae iddo'r un ystyr ag yn adran 114 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. |
| **Awdurdod Rheoli Perygl Llifogydd** | Mae iddo'r un ystyr ag yn Rhan 1, adran 6, isadran 13 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. |
| **Adfer cynefin** | Camau a gymerwyd i adfer cynefinoedd brodorol diraddiedig er mwyn adeiladu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol. |
| **Ardal rynglanwol** | Yr ardal rhwng lefel penllanw cymedrig y gorllanw a marc distyll cymedrig y gorllanw. |
| **Rhywogaethau estron goresgynnol** | Unrhyw rywogaethau estron sydd â'r gallu i ymledu'n sylweddol, gan achosi niwed i'r amgylchedd, yr economi, ein hiechyd, neu'r ffordd yr ydym yn byw. |
| **Awdurdod lleol** | Mae iddo'r un ystyr ag yn adran 68(9) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. |
| **Cynnal a chadw** | Cynnal a chadw neu atgyweirio tebyg am debyg adeiledd neu ased sy'n bodoli'n gyfan gwbl o fewn ei ffiniau tri dimensiwn presennol. Nid yw'n cynnwys newidiadau sylweddol. |

| | |
|---|---|
| **Sbwriel morol** | Unrhyw ddeunydd solet parhaus, wedi'i weithgynhyrchu neu wedi'i brosesu sy'n cael ei daflu, ei waredu neu ei adael yn yr amgylchedd morol ac arfordirol. Nid yw'r diffiniad o sbwriel morol at ddibenion esemptiadau trwydded forol yn ymestyn i arfau rhyfel wedi'u dympio. |
| **Ardal Forol Warchodedig** | Term cyffredinol a ddefnyddir i ddisgrifio'r safleoedd dynodedig canlynol yn yr ardal forol at ddibenion cadwraeth natur: Ardal Cadwraeth Arbennig, Ardal Gwarchodaeth Arbennig, Parth Cadwraeth Morol, Safle Ramsar a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. |
| **Arolwg neu arbrawf gwyddonol** | Ymgyrch i gynnal arolwg o'r amgylchedd morol at ddibenion arsylwi a/neu ddadansoddi gwyddonol yw hwn. |
| **Effaith arwyddocaol** | Mae i'r term hwn yr un ystyr ag yn Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017. |

## Tabl 1. Esemptiadau o Orchymyn Gweithgareddau Esempt 2011 wedi'u cadw heb unrhyw newidiadau

| |
|---|
| **Gweithgareddau sy'n dod o fewn Rhan 6 o Ddeddf Llongau Masnach 1995**<br><br>(1) mae'r esemptiad yn gymwys i weithgaredd sy'n dod o fewn pwnc Rhan 6 o Ddeddf Llongau Masnach 1995 (1) (atal llygredd). |
| **Rheswm:** Yn osgoi dyblygu rheoleiddio ac yn sicrhau cydymffurfedd â rhwymedigaethau rhyngwladol. Rheolir gweithgareddau drwy'r Sefydliad Morol Rhyngwladol a Deddf Llongau Masnachol y DU 1995. |
| **Cyfarwyddiadau diogelwch o dan Ddeddf Llongau Masnach 1995**<br><br>(1) mae'r esemptiad yn gymwys i weithgaredd a gyflawnir –<br>(a) gan neu ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol wrth arfer pŵer o dan Atodlen 3A i Ddeddf Llongau Masnach 1995 (cyfarwyddiadau diogelwch);<br>(b) gan unrhyw berson at y diben o gydymffurfio â chyfarwyddyd o dan yr atodlen honno; neu<br>(c) gan unrhyw berson at y diben o osgoi ymyrraeth â chamau a gymerwyd yn rhinwedd yr atodlen honno. |
| **Rheswm:** Yn osgoi dyblygu rheoleiddio ac yn sicrhau cydymffurfedd â rhwymedigaethau rhyngwladol. Rheolir gweithgareddau drwy'r Sefydliad Morol Rhyngwladol a Deddf Llongau Masnachol y DU 1995. |
| **Ymladd tân**<br><br>(1) mae'r esemptiad yn gymwys i weithgaredd a gynhelir at ddiben ymladd, neu atal lledaeniad, unrhyw dân. |

**Rheswm:** Ymateb brys – diogelwch bywyd a/neu longau.

**Ymchwiliad i ddamweiniau awyr**

(1) mae'r esemptiad yn gymwys i weithgaredd dyddodi neu symud a ymgymerir at y diben o adennill unrhyw sylwedd neu wrthrych fel rhan o ymchwiliad i unrhyw ddamwain sy'n ymwneud ag awyren.

**Rheswm:** Ymateb brys – osgoi oedi i ymchwiliadau.

**Gweithrediadau pysgota**

(1) mae'r esemptiad yn gymwys i unrhyw un o'r gweithgareddau a ganlyn os ymgymerir â hwy yn ystod gweithrediad pysgota—

(a) dyddodi cyfarpar pysgota, ac eithrio dyddodi a wneir at ddibenion gwaredu.
(b) gweithgaredd symud neu weithgaredd carthu a gyflawnir at ddiben—
(i) pysgota am bysgod neu gymryd pysgod, neu
(ii) symud cyfarpar pysgota.
(c) dyddodi unrhyw bysgodyn neu wrthrych arall i'w ddychwelyd i'r môr.

(2) mae'r esemptiad hefyd yn gymwys i ddyddodi unrhyw bysgod sy'n cael eu dychwelyd i'r môr yn ystod prosesu pysgod ar y môr.

(3) Yn yr esemptiad hwn —
(a) mae "pysgod" yn cynnwys pysgod cregyn ac unrhyw ran o bysgodyn;
(b) mae "offer pysgota" yn cynnwys offer a ddefnyddir i bysgota am bysgod cregyn neu i'w cymryd, ond nid yw fel arall yn cynnwys unrhyw beth a ddefnyddir mewn cysylltiad â lluosogi neu dyfu pysgod cregyn.

**Rheswm:** Yn osgoi dyblygu rheoleiddio. Mae gweithgareddau'n cael eu rheoleiddio'n well o dan ddeddfwriaeth pysgodfeydd sydd ar waith i ddiogelu'r amgylchedd a defnyddwyr eraill y môr.

**Dyddodi sylweddau trin cemegau ac olew morol ac ati**

(1) mae'r esemptiad yn gymwys i ddyddodi unrhyw–
(a) sylwedd trin cemegau morol.
(b) sylwedd trin olew morol.

| |
|---|
| (c) sylwedd a ddefnyddir neu y bwriedir ei ddefnyddio i symud deunydd baeddu arwyneb oddi ar wyneb y môr neu wely'r môr.<br><br>(2) Mae paragraff (1) yn ddarostyngedig i amodau 1 i 4.<br><br>(3) Amod 1 yw bod rhaid i'r sylwedd fod yn un y mae'r awdurdod trwyddedu wedi cymeradwyo ei ddefnyddio am y tro at ddibenion y gorchymyn hwn gan yr awdurdod trwyddedu.<br><br>(4) Amod 2 yw bod rhaid defnyddio'r sylwedd yn unol ag unrhyw amodau y mae'r gymeradwyaeth yn ddarostyngedig iddynt.<br><br>(5) Amod 3 yw na chaniateir dyddodi mewn ardal o'r môr sy'n llai nag 20 metr o ddyfnder neu o fewn un filltir forol i unrhyw ardal o'r fath ac eithrio gyda chymeradwyaeth yr awdurdod trwyddedu.<br><br>(6) Amod 4 yw na chaniateir i unrhyw sylwedd trin cemegau morol neu sylwedd trin olew morol gael ei ddyddodi o dan wyneb y môr ac eithrio gyda chymeradwyaeth yr awdurdod trwyddedu.<br><br>(7) Yn yr erthygl hon, mae i "sylwedd trin cemegau morol" a "sylwedd trin olew morol" yr un ystyr ag yn adran 107(2) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir. |
| **Rheswm:** Atal llygredd - mae'r gweithgaredd yn risg isel, yn amodol ar fodloni amodau'r esemptiad. |
| **Dyddodi offer i reoli, dal neu adennill olew**<br><br>(1) mae'r esemptiad yn gymwys i ddyddodi unrhyw offer at y diben o reoli, cynnwys, neu adennill unrhyw—<br>(a) olew,<br>(b) cymysgedd sy'n cynnwys olew,<br>(c) cemegyn,<br>(d) broc môr, neu<br>(e) gordyfiant algâu.<br><br>(2) Nid yw'r esemptiad yn gymwys i unrhyw ddyddodi o'r fath i'r graddau y mae'n dod o fewn eitem 10 [adran 66 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir]. |
| **Rheswm:** Ymateb brys ac atal llygredd - yn osgoi gohirio unrhyw weithrediadau glanhau angenrheidiol. |
| **Dyddodion wrth garthu am agregau neu fwynau**<br><br>(1) mae'r esemptiad yn gymwys— |

| |
|---|
| (a) i ddyddodi ar y safle carthu am agregau neu fwynau eraill o unrhyw sylwedd neu wrthrych a gymerwyd o’r môr yn ystod y carthu hwnnw (ac eithrio unrhyw un o’r agregau neu fwynau sy’n cael eu carthu);<br>(b) i ddyddodi dyfroedd (boed hynny drwy orlif neu ollyngiad wedi’i bwmpio) o howld llong—<br>(i) yn ystod carthu arferol am agregau neu fwynau eraill, neu<br>(ii) ar safle carthu o’r fath ar ôl ei gwblhau neu yn ystod taith y llong yn ôl. |
| **Rheswm:** Gweithgaredd risg isel sy’n sicrhau diogelwch llongau sy’n gweithredu ar y môr. |
| **Cynnal a chadw gweithiau harbwr**<br><br>(1) mae’r esemptiad yn gymwys i weithgaredd ddyddodi neu symud neu weithiau a gyflawnir gan neu ar ran awdurdod harbwr at ddiben cynnal a chadw unrhyw weithiau harbwr.<br><br>(2) mae paragraff (1) yn ddarostyngedig i’r amod bod y gweithgaredd yn cael ei gyflawni o fewn ffiniau presennol y gwaith sy’n cael ei gynnal. |
| **Rheswm:** Yn osgoi dyblygu rheoliadau ar gyfer gwaith risg isel lle mae gan awdurdodau harbwr lleol gyfrifoldebau a phwerau statudol o dan orchmynion harbwr ar gyfer gwaith o fewn eu hawdurdodaeth. |
| **Lansio llongau ac ati**<br><br>(1) mae’r esemptiad yn gymwys i ddyddodi mewn cysylltiad â lansio unrhyw gerbyd, llong, awyren, adeiledd morol, neu gynhwysydd arnofiol. |
| **Rheswm:** Gweithgaredd risg isel. Yn galluogi gweithgareddau o ddydd i ddydd. |
| **Datgymalu llongau**<br><br>(1) mae’r esemptiad yn gymwys i weithgaredd dyddodi neu symud a ymgymerir fel rhan o ddatgymalu llong sy’n wastraff.<br><br>(2) nid yw’r esemptiad yn gymwys i unrhyw ddyddodi o’r fath i’r graddau y mae’n dod o fewn eitem 10 [adran 66 o Ddeddf y Môr a Mynediad i’r Arfordir]. |
| **Rheswm:** Mae’n osgoi dyblygu rheoliadau lle gall y gweithgaredd hefyd gael ei reoleiddio o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol pan fo llongau wedi’u lleoli uwchben y marc distyll cymedrig. |

**Hawliau llongau tramor ac ati o dan gyfraith ryngwladol**

(1) mae'r esemptiad yn gymwys i weithgaredd i'r graddau y mae'n cael ei gyflawni wrth arfer hawl o dan reolau cyfraith ryngwladol, gan neu mewn perthynas â—

(a) llong trydedd wlad;
(b) llong ryfel, llong gynorthwyol y llynges, llong arall, neu awyren sy'n eiddo i wladwriaeth neu sy'n cael ei gweithredu ganddi ac a ddefnyddir, am y tro, ar wasanaeth anfasnachol y llywodraeth yn unig (p'un a yw'r llong ryfel, llong gynorthwyol y llynges neu long arall yn llong trydedd wlad ai peidio).

(2) Ym mharagraff (1), ystyr "llong trydedd wlad" yw llong sydd—
(a) yn chwifio baner unrhyw wladwriaeth neu diriogaeth, ac eithrio'r Deyrnas Unedig, neu sydd wedi'i chofrestru yn y wlad honno.

**Rheswm:** Yn osgoi dyblygu rheoleiddio ac yn sicrhau cydymffurfedd â rhwymedigaethau rhyngwladol.

**Llwytho cerbyd neu long ac ati i'w llosgi y tu allan i Gymru a rhanbarth glannau Cymru a rhanbarth alltraeth Cymru**

(1) mae'r esemptiad yn gymwys i lwytho cerbyd, llong, awyren, adeiledd morol neu gynhwysydd arnofiol ag unrhyw sylwedd neu wrthrych i'w losgi—
(a) yn rhanbarth glannau'r Alban.
(b) yn ardal trwyddedu morol y DU ac eithrio yng Nghymru, rhanbarth glannau Cymru a rhanbarth alltraeth Cymru.
(c) y tu allan i ardal trwyddedu morol y DU a rhanbarth glannau'r Alban, lle mae'r llosgi i ddigwydd—
  (i) ar long neu adeiledd morol Prydeinig; neu
  (ii) ar gynhwysydd sy'n arnofio yn y môr, os yw'r llosgi'n cael ei reoli o long Brydeinig, awyren Brydeinig, neu adeiledd morol Prydeinig.

(2) Fodd bynnag, nid yw paragraff (1) yn gymwys ond i'r graddau y mae gweithgaredd o'r fath yn dod o fewn eitem 13 [o adran 66 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir].

**Rheswm:** Yn osgoi dyblygu rheoliadau ac yn berthnasol i lwytho cerbyd, llong, awyren, adeiledd morol neu gynhwysydd arnofiol yn unig.

## Tabl 2. Esemptiadau o Orchymyn Gweithgareddau Esempt 2011 wedi'u cadw gyda diwygiadau

| Esemptiad cyfredol o Orchymyn 2011 | Esemptiad newydd arfaethedig | Rheswm dros yr esemptiad |
|---|---|---|
| **Gweithgareddau achub –**<br>(1) mae'r esemptiad yn gymwys i weithgaredd a gyflawnir, yn ystod gweithrediad achub, at y diben o sicrhau diogelwch llong neu atal llygredd. | **Gweithgareddau achub –**<br>(1) mae'r esemptiad yn gymwys i weithgaredd a gyflawnir, yn ystod gweithrediad achub, at y diben o sicrhau diogelwch llong neu atal llygredd.<br><br>(2) nid yw'r esemptiad yn gymwys i symud llongddrylliadau neu wrthrychau eraill o ddiddordeb archaeolegol.<br><br>(3) mae'r esemptiad yn ddarostyngedig i'r amod na ddylai gweithgareddau achub gael effaith arwyddocaol ar Ardal Forol Warchodedig. | Yn sicrhau diogelwch llongau ac atal llygredd. Mae'r gweithgaredd yn un risg isel, yn amodol ar fodloni amodau'r esemptiad. |
| **Offerynnau gwyddonol –**<br><br>(1) mae'r esemptiad yn gymwys—<br>(a) i ddyddodi unrhyw offeryn gwyddonol neu gyfarpar cysylltiedig mewn cysylltiad ag unrhyw arbrawf neu arolwg gwyddonol;<br>(b) i ddyddodi unrhyw adweithydd;<br>(c) i ddyddodi unrhyw olrheiniwr;<br>(d) i weithgaredd symud a gyflawnir at y diben o symud unrhyw offeryn gwyddonol neu gyfarpar cysylltiedig y cyfeirir ato yn is-baragraff (a).<br><br>(2) Mae is-baragraffau (b) ac (c) o baragraff (1) yn ddarostyngedig i amodau 1 a 2.<br><br>(3) Amod 1 yw bod yn rhaid i'r adweithydd neu'r olrheiniwr fod yn un y mae'r awdurdod trwyddedu | **Offer neu offerynnau gwyddonol**<br><br>(1) mae'r esemptiad yn gymwys–<br>(a) i ddyddodi unrhyw gyfarpar neu offeryn gwyddonol a chyfarpar cysylltiedig mewn cysylltiad ag unrhyw arbrawf neu arolwg gwyddonol;<br>(b) i ddyddodi unrhyw adweithydd;<br>(c) i ddyddodi unrhyw olrheiniwr;<br>(d) i weithgaredd symud a gynhelir at y diben o symud unrhyw gyfarpar neu offeryn gwyddonol a chyfarpar cysylltiedig y cyfeirir atynt yn is-baragraff (a) ar ddiwedd unrhyw arbrawf neu arolwg.<br>(2) Mae is-baragraffau (b), (c) a (d) o baragraff (1) yn ddarostyngedig i amodau 1, 2, 3 a 4.<br><br>(3) Amod 1 yw bod rhaid darparu manylion y cyfarpar neu'r offerynnau gwyddonol sydd i'w | Risg isel, yn amodol ar fodloni amodau angenrheidiol yr esemptiad. Yn cefnogi dealltwriaeth o'r amgylchedd morol trwy alluogi ymchwil wyddonol. |

| | | |
|---|---|---|
| wedi'i gymeradwyo am y tro at ddibenion y gorchymyn hwn.<br><br>(4) Amod 2 yw bod rhaid defnyddio'r adweithydd neu'r olrheiniwr yn unol ag unrhyw amodau y mae'r gymeradwyaeth yn ddarostyngedig iddynt.<br><br>(5) Ond nid yw erthygl 4 yn gymwys i—<br>(a) unrhyw ddyddodi o'r fath a wneir at y diben o waredu;<br>(b) unrhyw ddyddodi o'r fath sy'n achosi neu'n debygol o achosi rhwystr neu berygl i fordwyo;<br>(c) unrhyw weithgaredd dyddodi neu symud o'r fath—<br>(i) sy'n dod o fewn is-baragraff (a) neu (b) o baragraff 6; a<br>(ii) nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â'r gwaith o reoli'r safle y cyfeirir ato yn yr is-baragraff hwnnw nac yn angenrheidiol ar gyfer hynny.<br><br>(6) Mae gweithgaredd dyddodi neu symud yn dod o fewn y paragraff hwn—<br>(a) os yw'n gynllun neu brosiect sy'n debygol (naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill) o gael effaith arwyddocaol ar safle Ewropeaidd; neu<br>(b) ei fod yn debygol o gael effaith ar Safle Ramsar.<br><br>(7) Yn is-baragraffau (a) a (b) o baragraff (6), mae i "tebygol" yr un ystyr ag sydd i "likely" yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC ar gadwraeth cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt. | dyddodi i Swyddfa Hydrograffeg y DU o leiaf pum diwrnod cyn cyflawni unrhyw ddyddodi.<br><br>(4) Amod 2 yw bod rhaid rhoi hysbysiad i Swyddfa Hydrograffeg y DU o unrhyw gyfarpar neu offer gwyddonol a symudir wedi hynny o leiaf pum diwrnod ar ôl eu symud.<br><br>(5) Amod 3 yw bod rhaid i'r adweithydd neu'r olrheiniwr fod yn un y mae'r awdurdod trwyddedu wedi'i gymeradwyo am y tro at ddibenion y gorchymyn hwn.<br><br>(6) Amod 4 yw bod rhaid defnyddio'r adweithydd neu'r olrheiniwr yn unol ag unrhyw amodau y mae'r gymeradwyaeth yn ddarostyngedig iddynt.<br><br>(7) Ond nid yw'r esemptiad hwn yn gymwys i—<br>(a) unrhyw ddyddodi o'r fath a wneir at y diben o waredu;<br>(b) unrhyw ddyddodi o'r fath sy'n achosi neu'n debygol o achosi rhwystr neu berygl i fordwyo, yn enwedig pan fo dyddodi o'r fath wedi'i glymu i wely'r môr neu'n lleihau cliriad mordwyol o fwy na 5% drwy gyfeirio at lefel y llanw isaf, neu<br>(c) unrhyw weithgarwch dyddodi neu symud sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar Ardal Forol Warchodedig.<br><br>(8) Ym mharagraff (1), mae arbrawf neu arolwg gwyddonol yn "Ymgyrch i gynnal arolwg o'r amgylchedd morol at ddibenion arsylwi a/neu ddadansoddi gwyddonol". | |

| | | |
|---|---|---|
| **Cynnal a chadw gweithiau amddiffyn yr arfordir, draenio ac amddiffyn rhag llifogydd –**<br><br>(1) mae'r esemptiad yn gymwys—<br><br>(a) i weithgaredd a gyflawnir gan neu ar ran Corff Adnoddau Naturiol Cymru neu Asiantaeth yr Amgylchedd at y diben o gynnal unrhyw—<br>(i) gweithiau amddiffyn yr arfordir;<br>(ii) gweithiau draenio;<br>(iii) gweithiau amddiffyn rhag llifogydd;<br><br>(b) i weithgaredd a ymgymerir gan neu ar ran awdurdod gwarchod yr arfordir (o fewn ystyr Deddf Amddiffyn y Glannau 1949 at ddiben cynnal a chadw unrhyw weithiau amddiffyn yr arfordir).<br><br>(2) mae paragraff (1) yn ddarostyngedig i'r amod bod y gweithgaredd yn cael ei gyflawni o fewn ffiniau presennol y gwaith sy'n cael ei gynnal.<br><br>(3) Nid yw erthygl 4 yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw weithgaredd o'r fath sy'n cynnwys adnewyddu traethau. | **Cynnal a chadw gweithiau amddiffyn yr arfordir, draenio ac amddiffyn rhag llifogydd –**<br><br>(1) mae'r esemptiad yn gymwys i weithgaredd a gyflawnir gan neu ar ran Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd, neu awdurdodau diogelu'r arfordir, at ddiben cynnal unrhyw –<br>(i) gweithiau amddiffyn yr arfordir;<br>(ii) gweithiau draenio;<br>(iii) gweithiau amddiffyn rhag llifogydd;<br><br>(2) Ym mharagraff (1), ystyr Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd yw'r awdurdodau hynny fel y'u diffinnir yn Neddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 ac mae i awdurdodau diogelu'r arfordir yr un ystyr ag yn Neddf Amddiffyn y Glannau 1949.<br><br>(3) Mae paragraff (1) yn ddarostyngedig i'r amod bod gweithgareddau cynnal a chadw yn cael eu cyflawni o fewn ffiniau presennol y gwaith sy'n cael ei gynnal.<br><br>(4) Nid yw'r esemptiad yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw weithgaredd o'r fath sy'n cynnwys adnewyddu traeth.<br><br>(5) Yn yr esemptiad hwn, mae "gwaith amddiffyn yr arfordir" yn cynnwys –<br>(a) ailbroffilio traeth, sy'n golygu symud deunydd traeth i gyfeiriad trawsdraeth i fyny neu i lawr y traeth o fewn ffiniau amrywioldeb traeth naturiol, a<br>(b) ailgylchu traeth, sy'n golygu symud deunydd traeth ar hyd y traeth o ardaloedd ail-gronni i ardaloedd o erydiad o fewn y traeth neu system waddod gysylltiedig. | Risg isel, yn amodol ar fodloni amodau'r esemptiad. |

| | | |
|---|---|---|
| **Gwaith brys mewn ymateb i lifogydd neu berygl o lifogydd**<br><br>(1) mae'r esemptiad yn berthnasol i weithgaredd a gynhelir gan neu ar ran Corff Adnoddau Naturiol Cymru neu Asiantaeth yr Amgylchedd at ddiben cyflawni gwaith brys mewn ymateb i unrhyw lifogydd neu berygl uniongyrchol o unrhyw lifogydd.<br><br>(2) mae paragraff (1) yn ddarostyngedig i'r amod mai dim ond yn unol â chymeradwyaeth a roddwyd gan yr awdurdod trwyddedu at y diben hwnnw y caniateir i'r gweithgaredd gael ei gyflawni. | **Gwaith brys mewn ymateb i lifogydd neu berygl o lifogydd**<br><br>(1) mae'r esemptiad yn gymwys i weithgaredd a gyflawnir at ddiben gwneud gwaith brys mewn ymateb i unrhyw lifogydd neu berygl uniongyrchol o unrhyw lifogydd.<br><br>(2) nid yw'r esemptiad yn gymwys pan fo methiant i gynnal ased cyn i sefyllfa o argyfwng godi. | Ymateb brys. |
| **Dyddodion yn ystod mordwyo neu waith cynnal a chadw arferol**<br><br>(1) mae'r esemptiad yn gymwys i ddyddodi o gerbyd, llong, awyren, neu adeiledd morol yn ystod ei fordwyo neu ei gynnal yn arferol.<br><br>(2) Nid yw'r esemptiad yn gymwys i unrhyw ddyddodyn o'r fath<br>(a) a wneir at y diben o waredu;<br>(b) i'r graddau y mae'n dod o fewn eitem 10 [o adran 66 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir]. | **Dyddodion a symudiadau yn ystod mordwyo neu waith cynnal a chadw arferol**<br><br>(1) mae'r esemptiad yn gymwys i ddyddodi o gerbyd, llong, awyren, neu adeiledd morol yn ystod ei fordwyo neu ei gynnal yn arferol, neu unrhyw symud gwrthrych neu sylwedd oddi ar wely'r môr yn gysylltiedig â hynny.<br><br>(2) Nid yw'r esemptiad yn gymwys i unrhyw ddyddodyn o'r fath<br>(a) a wneir at y diben o waredu;<br>(b) i'r graddau y mae'n dod o fewn eitem 10 [o adran 66 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir]. | Gweithgaredd risg isel. Wedi'i fwriadu i alluogi gweithgareddau o ddydd i ddydd / arferol fel dyddodi angorau a'u tynnu wedi hynny. |
| **Marcwyr ar gyfer Safleoedd Morol Ewropeaidd**<br><br>(1) mae'r esemptiad yn gymwys i— | **Marcwyr ar gyfer Safleoedd Morol Ewropeaidd**<br><br>(1) mae'r esemptiad yn gymwys i— | Risg isel, yn amodol ar fodloni amodau angenrheidiol yr esemptiad. |

| | | |
|---|---|---|
| (a) dyddodi gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru at ddiben gosod marciwr at ddibenion Rheoliad 37(1) o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (gosod marcwyr sy’n nodi bodolaeth a maint Safle Morol Ewropeaidd o fewn ystyr y rheoliadau hynny);<br><br>(b) gweithgaredd symud a gyflawnir gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru at y diben o dynnu marciwr y cyfeirir ato yn is-baragraff (a).<br><br>(2) mae paragraff (1) yn ddarostyngedig i’r amod mai dim ond yn unol â chymeradwyaeth a roddwyd gan yr awdurdod trwyddedu at y diben hwnnw y caniateir i’r gweithgaredd gael ei gyflawni. | (a) dyddodi gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru at ddiben gosod marciwr i ddangos bodolaeth a maint Ardal Forol Warchodedig a ddynodwyd o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, a Rhan 5 o Ddeddf y Môr a Mynediad i’r Arfordir.<br>(b) gweithgaredd symud a gyflawnir gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru at y diben o dynnu marciwr y cyfeirir ato yn is-baragraff (a).<br><br>(2) Mae paragraff (1) yn ddarostyngedig i’r amod a ganlyn—<br>(a) Amod 1 yw bod hysbysiad o unrhyw weithgaredd dyddodi neu symud yn cael ei roi i’r canlynol o leiaf pum diwrnod cyn cyflawni unrhyw weithgaredd dyddodi neu symud.<br>- Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau<br>- Trinity House, a<br>- Swyddfa Hydrograffeg y DU | |
| **Llwybrau deifwyr o fewn ardaloedd cyfyngedig**<br><br>(1) mae’r esemptiad yn gymwys i weithgaredd dyddodi neu symud a gyflawnir at ddiben gosod, sicrhau neu symud arwyddion neu farcwyr adnabod eraill sy’n ymwneud â llongddrylliad o fewn ardal a ddynodwyd yn ardal gyfyngedig o fewn ystyr adran 1 o Ddeddf Diogelu Llongddrylliadau 1973. | **Llwybrau deifwyr o fewn ardaloedd cyfyngedig**<br><br>(1) mae’r esemptiad yn gymwys i weithgaredd dyddodi neu symud a gyflawnir at ddiben gosod, sicrhau neu symud arwyddion neu farcwyr adnabod eraill sy’n ymwneud â llongddrylliad o fewn ardal a ddynodwyd yn ardal gyfyngedig o fewn ystyr adran 1 o Ddeddf Diogelu Llongddrylliadau 1973, heneb gofrestredig fel y’i diffinnir yn Rhan 2 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 a Deddf Ardaloedd Archaeolegol 1979, a Deddf Diogelu Gweddillion Milwrol 1986. | Risg isel. |
| **Gweithgareddau gwylwyr y glannau – dibenion diogelwch a hyfforddiant** | **Gweithgareddau gwylwyr y glannau – dibenion diogelwch a hyfforddiant** | Ymateb brys – diogelwch bywyd a/neu longau. |

| | | |
|---|---|---|
| (1) mae'r esemptiad yn gymwys i weithgaredd a gyflawnir gan neu ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, gan weithredu drwy Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, at ddiben—<br>(a) sicrhau diogelwch llong, awyren, neu adeiledd morol;<br>(b) achub bywyd; neu<br>(c) hyfforddiant at unrhyw ddiben y cyfeirir ato ym mharagraff (a) neu (b). | (1) mae'r esemptiad yn gymwys i weithgaredd a gyflawnir gan neu ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, sy'n gweithredu drwy Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, neu i unrhyw un sy'n gweithredu mewn cysylltiad ag—<br>(a) sicrhau diogelwch llong, awyren, neu adeiledd morol;<br>(b) arbed neu geisio achub bywyd neu eiddo, neu<br>(c) hyfforddiant at unrhyw ddiben y cyfeirir ato ym mharagraff (a) neu (b). | |
| **Ceblau a phiblinellau – archwilio ac atgyweirio brys awdurdodedig**<br><br>(1) mae'r esemptiad yn berthnasol i ddyddodion, gweithgaredd symud neu weithgaredd carthu a gyflawnir at ddiben cynnal archwiliad brys neu waith atgyweirio ar unrhyw gebl neu bibell.<br><br>(2) mae paragraff (1) yn ddarostyngedig i'r amod mai dim ond yn unol â chymeradwyaeth a roddwyd gan yr awdurdod trwyddedu at y diben hwnnw y caniateir i'r gweithgaredd gael ei gyflawni.<br><br>(3) Ond nid yw'r esemptiad yn berthnasol i unrhyw ddyddodyn o'r fath sy'n dod o fewn eitem 10 [o adran 66 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir]. | **Ceblau a phiblinellau – archwilio ac atgyweirio brys**<br><br>1) mae'r esemptiad yn berthnasol i ddyddodi, gweithgaredd symud neu weithgaredd carthu a gyflawnir at ddiben cynnal archwiliad brys neu waith atgyweirio tebyg am debyg i unrhyw gebl neu bibell.<br><br>(2) Mae paragraff (1) yn ddarostyngedig i'r amodau a ganlyn, sef bod Swyddfa Hydrograffeg y DU yn cael ei hysbysu o unrhyw ddiwygiadau a wneir i safleoedd ceblau wedi'u siartio o fewn pum diwrnod ar ôl unrhyw waith brys.<br><br>(3) Nid yw'r esemptiad yn berthnasol:<br>a) i unrhyw ddyddodyn o'r fath sy'n dod o fewn eitem 10 [o adran 66 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir]<br>b) i unrhyw ddyddodyn neu weithgaredd carthu o'r fath a gyflawnir er mwyn amddiffyn ceblau neu bibellau.<br>c) unrhyw weithgareddau gwella cebl. | Ymateb brys. |
| **Dyddodi a defnyddio fflachiadau ac ati – dibenion diogelwch a hyfforddiant** | **Dyddodi a defnyddio fflachiadau ac ati – dibenion diogelwch a hyfforddiant** | Ymateb brys – diogelwch bywyd a/neu longau. |

| | | |
|---|---|---|
| (1) mae’r esemptiad yn gymwys i ddyddodi neu ddefnyddio unrhyw fflachiad cyfyngder, fflôt fwg neu sylwedd neu wrthrych pyrotechnig tebyg at y diben o—<br><br>(a) sicrhau diogelwch llong, awyren neu adeiledd morol;<br>(b) achub bywyd; neu<br>(c) hyfforddiant at unrhyw ddiben y cyfeirir ato yn is-baragraff (a) neu (b). | (1) mae’r esemptiad yn gymwys i ddyddodi neu ddefnyddio unrhyw fflachiad cyfyngder, fflôt fwg neu sylwedd neu wrthrych pyrotechnig tebyg at y diben o—<br>(a) sicrhau diogelwch llong, awyren neu adeiledd morol.<br>(b) achub bywyd; neu<br>(c) hyfforddiant at unrhyw ddiben y cyfeirir ato yn is-baragraff (a) neu (b), y mae’n rhaid iddo gydymffurfio ag unrhyw ofynion iechyd a diogelwch perthnasol. | |
| **Lledaenu a magu pysgod cregyn**<br><br>(1) mae’r esemptiad yn gymwys i—<br><br>(a) dyddodi unrhyw bysgod cregyn, trestl, rafft, cawell, polyn, rhaff neu lein wrth ledaenu neu fagu pysgod cregyn;<br>(b) gweithgaredd symud neu weithgaredd carthu a gyflawnir at y diben o symud pysgod cregyn o fewn y môr wrth iddynt gael eu lledaenu neu eu magu.<br><br>(2) Ond nid yw erthygl 4 yn gymwys i unrhyw ddyddodyn o’r fath—<br><br>(a) a wneir at y diben o waredu;<br>(b) a wneir at y diben o greu, newid neu gynnal a chadw riff artiffisial; neu<br>(c) sy’n achosi neu’n debygol o achosi rhwystr neu berygl i fordwyo. | **Lledaenu a magu pysgod cregyn**<br><br>(1) mae’r esemptiad yn gymwys i—<br><br>(a) dyddodi unrhyw bysgod cregyn, trestl, rafft, cawell, polyn, rhaff neu lein wrth ledaenu neu fagu pysgod cregyn.<br>(b) gweithgaredd symud neu weithgaredd carthu a gyflawnir at y diben o symud pysgod cregyn o fewn y môr wrth iddynt gael eu lledaenu neu eu magu.<br><br>(2) Mae’r esemptiad yn ddarostyngedig i’r amodau a ganlyn:<br>(a) Amod 1 yw bod yn rhaid i unrhyw berson sy’n bwriadu ymgymryd â gweithgareddau lledaenu neu fagu pysgod cregyn ymgysylltu ag Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau a Trinity House cyn i unrhyw weithgaredd ddechrau i geisio cytundeb ysgrifenedig ynghylch a yw unrhyw weithgareddau yn achosi neu’n debygol o achosi rhwystr neu berygl i fordwyo.<br>(b) Amod 2 yw y rhoddir hysbysiad i Swyddfa Hydrograffeg y DU o leiaf pum diwrnod cyn i unrhyw weithgarwch dyddodi ddechrau, gan gynnwys manylion unrhyw adeileddau neu farcwyr a’u lleoliad gan ddefnyddio cyfesurynnau WGS84. | Mae hyn yn osgoi dyblygu rheoliadau lle mae gorchymyn pysgodfa unigol, neu orchymyn rheoleiddio perthnasol arall, eisoes yn ei le. Mae’r gweithgaredd yn un risg isel yn amodol ar fodloni amodau’r esemptiadau. |

| | | |
|---|---|---|
| | (3) Ond nid yw'r esemptiad yn berthnasol i –<br>(a) unrhyw ddyddodi a wneir at y diben o waredu,<br>(b) unrhyw ddyddodi a wneir at y diben o greu, newid neu gynnal a chadw riff artiffisial,<br>(c) unrhyw weithgaredd dyddodi neu symud sy'n achosi neu'n debygol o achosi rhwystr neu berygl i fordwyo,<br>(d) unrhyw weithgaredd dyddodi, symud neu garthu sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar Ardal Forol Warchodedig, neu<br>(e) ehangu gweithgareddau lledaenu neu fagu pysgod cregyn o fewn ffiniau gweithgareddau presennol. | |
| **Angorfeydd a chymhorthion mordwyo**<br><br>(1) mae'r esemptiad yn gymwys—<br><br>(a) i weithgaredd dyddodi neu weithiau a gyflawnir gan berson y cyfeirir ato ym mharagraff (2) at y diben o ddarparu angorfa biler, angorfa siglo, angorfa trot neu gymorth mordwyo;<br>(b) i weithgaredd symud a wneir gan unrhyw berson o'r fath at y diben o symud unrhyw angorfa neu gymorth mordwyo o'r fath.<br><br>(2) Y personau yw—<br>(a) awdurdod harbwr.<br>(b) awdurdod goleudai.<br>(c) unrhyw berson arall, pan fo'r gweithgaredd yn cael ei gyflawni yn unol â chaniatâd sy'n ofynnol gan, ac a roddir gan, unrhyw awdurdod o'r fath. | **Angorfeydd a chymhorthion mordwyo**<br><br>(1) mae'r esemptiad yn gymwys—<br><br>(a) i weithgaredd dyddodi neu weithiau a gyflawnir gan berson y cyfeirir ato ym mharagraff (2) at y diben o ddarparu angorfa biler, angorfa siglo, angorfa trot neu gymorth mordwyo.<br>(b) i weithgaredd symud a wneir gan unrhyw berson o'r fath at y diben o symud unrhyw angorfa neu gymorth mordwyo o'r fath.<br>(c) i weithgaredd dyddodi neu symud a ymgymerir gan berson y cyfeirir ato ym mharagraff (2) at ddiben amnewid neu gynnal a chadw unrhyw angorfa neu gymorth mordwyo o'r fath.<br><br>(2) Y personau yw—<br>(a) awdurdod harbwr.<br>(b) awdurdod goleudai. | Risg isel. |

| | | |
|---|---|---|
| (3) Ond nid yw'r esemptiad yn gymwys i unrhyw weithgaredd o'r fath sy'n cynnwys dyddodi neu adeiladu pontŵn. | (c) unrhyw berson arall, pan fo'r gweithgaredd yn cael ei gyflawni yn unol â chaniatâd sy'n ofynnol gan, ac a roddir gan, unrhyw awdurdod o'r fath.<br><br>(3) Ond nid yw'r esemptiad yn gymwys i unrhyw weithgaredd o'r fath sy'n cynnwys dyddodi neu adeiladu pontŵn. | |
| **Cael gwared ar rwystr neu berygl i fordwyo**<br><br>(1) yn gymwys i weithgaredd symud a gyflawnir gan berson y cyfeirir ato ym mharagraff (2) at y diben o symud unrhyw beth sy'n achosi neu'n debygol o achosi rhwystr neu berygl i fordwyo.<br>(2) Y personau yw—<br>(a) awdurdod gwarchod (o fewn yr ystyr a roddir gan adran 313(1) o Ddeddf Llongau Masnach 1995([1]);<br>(b) awdurdod harbwr;<br>(c) awdurdod goleudai;<br>(d) person sydd â phwerau o dan unrhyw ddeddfiad neu orchymyn statudol i weithio neu gynnal camlas neu fordwyaeth fewndirol arall, gan gynnwys mordwyo mewn dŵr llanw. | **Cael gwared ar rwystr neu berygl i fordwyo**<br><br>(1) mae'r esemptiad yn gymwys i weithgaredd symud a gyflawnir gan berson y cyfeirir ato ym mharagraff (2) at y diben o symud unrhyw beth sy'n achosi neu'n debygol o achosi rhwystr neu berygl i fordwyo.<br><br>(2) Y personau yw—<br>(a) awdurdod gwarchod (o fewn yr ystyr a roddir gan adran 313(1) o Ddeddf Llongau Masnach 1995);<br>(b) awdurdod harbwr;<br>(c) awdurdod goleudai;<br>(d) person sydd â phwerau o dan unrhyw ddeddfiad neu orchymyn statudol i weithio neu gynnal camlas neu fordwyaeth fewndirol arall, gan gynnwys mordwyo mewn dŵr llanw.<br><br>(3) Mae'r esemptiad yn ddarostyngedig i'r amod bod Swyddfa Hydrograffeg y DU yn cael ei hysbysu o'r gweithgaredd symud o fewn pum diwrnod ar ôl cwblhau'r gwaith symud. | Mae hyn yn sicrhau diogelwch mordwyo. |

## Tabl 3. Cynigion esemptiad newydd

| |
|---|
| **Mân waith arferol i gynnal pontydd presennol ac adeileddau cantilifrog, gan gynnwys cynnal a chadw glanfeydd a phierau**<br><br>(1) mae'r esemptiad yn gymwys i fân waith arferol a wneir at ddiben cynnal a chadw pontydd, adeileddau cantilifrog, glanfeydd a phierau presennol.<br><br>(2) mae'r esemptiad yn ddarostyngedig i'r amodau a ganlyn:<br>(a) Amod 1 yw bod y mân waith yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, adnewyddu a chynnal asedau ategol adeileddau, megis gosod goleuadau, arwyddion, gwaith ar lwybrau, ffensys ac arwynebau ffyrdd.<br>(b) Amod 2 yw bod yr holl ganllawiau atal llygredd perthnasol yn cael eu dilyn.<br>(c) Amod 3 yw bod hysbysiad o unrhyw weithgaredd dyddodi neu symud yn cael ei roi i unrhyw awdurdod harbwr statudol lleol neu farinas neu glybiau hwylio lleol o leiaf 72 awr cyn i unrhyw weithgaredd dyddodi neu symud gael ei wneud.<br><br>(3) nid yw'r esemptiad yn gymwys—<br>(a) i unrhyw newid sylweddol neu unrhyw adeileddau sydd eu hangen ar gyfer mynediad.<br>(b) i unrhyw waith carthu neu waredu.<br>(c) i unrhyw weithgaredd dyddodi neu symud o'r fath a fydd yn achosi neu'n debygol o achosi rhwystr neu berygl i fordwyo, neu sy'n lleihau'r cliriad aer uwchben y penllanw astronomaidd ar gyfer unrhyw longau sy'n teithio o dan bont.<br>(d) i unrhyw weithgaredd dyddodi neu symud o'r fath sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar Ardal Forol Warchodedig. |
| **Rheswm:** Risg isel, yn amodol ar fodloni amodau angenrheidiol yr esemptiad. |
| **Cael gwared ar longau wedi'u gadael a/neu sy'n adfeiliedig**<br><br>(1) mae'r esemptiad yn gymwys i unrhyw weithgaredd dyddodi neu symud a ymgymerir gan, neu ar ran, awdurdod harbwr statudol neu Gorff Adnoddau Naturiol Cymru at y diben o symud llong wedi'i gadael neu sy'n adfail i dir.<br><br>(2) mae'r esemptiad yn ddarostyngedig i'r amodau a ganlyn:<br>(a) Amod 1 yw bod hysbysiad ymlaen llaw yn cael ei roi i Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau o leiaf 24 awr cyn i unrhyw weithgaredd dyddodi neu symud gael ei wneud.<br>(b) Amod 2 yw bod yr holl ganllawiau atal llygredd perthnasol yn cael eu dilyn.<br><br>(3) nid yw'r esemptiad yn gymwys—<br>(a) i unrhyw weithgaredd dyddodi neu symud a fydd yn achosi neu sy'n debygol o achosi rhwystr neu berygl i fordwyo,<br>(b) i unrhyw weithgaredd dyddodi neu symud o'r fath sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar Ardal Forol Warchodedig. |

(c) i symud unrhyw longddrylliadau a warchodir o dan Ddeddf Diogelu Llongddrylliadau 1973, neu longddrylliadau gwarchodedig dynodedig eraill.

(3) ystyr ’llongau wedi’u gadael’ yw’r llongau hynny sydd â pherchennog anhysbys, yn dilyn ymdrechion rhesymol i’w canfod, neu mae’r perchennog wedi ildio hawliau perchnogaeth.

(4) ystyr ’adfail’ yw llong sydd mewn cyflwr gwael ac wedi’i hesgeuluso.

**Rheswm:** Risg isel, yn amodol ar fodloni amodau angenrheidiol yr esemptiad.

**Arddangosfeydd tân gwyllt**

(1) Mae’r esemptiad yn gymwys i ddefnyddio tân gwyllt fel rhan o arddangosfa tân gwyllt a chael gwared ar unrhyw sbwriel cysylltiedig o’r amgylchedd morol, pan fo hynny’n ymarferol.

(2) Nid yw’r esemptiad yn berthnasol:
a) i unrhyw weithgaredd o’r fath at ddibenion gwaredu.
b) i unrhyw weithgaredd o’r fath sy’n achosi neu’n debygol o achosi rhwystr neu berygl i fordwyo.
d) unrhyw weithgaredd o’r fath sy’n debygol o gael effaith arwyddocaol ar Ardal Forol Warchodedig.

**Rheswm:** Risg isel.

**Samplu cydio gwely’r môr ar gyfer profi neu ddadansoddi**

(1) mae’r esemptiad yn gymwys i weithgaredd symud a gyflawnir at y diben o gymryd sampl o ddeunydd i’w brofi neu ei ddadansoddi.

(2) nid yw’r esemptiad yn berthnasol i:
(a) unrhyw weithgaredd symud pan fo cyfaint y deunydd a symudwyd yn fwy nag 1 metr ciwbig fesul sampl.
(c) unrhyw weithgaredd symud o’r fath sy’n achosi neu’n debygol o achosi rhwystr neu berygl i fordwyo.
(d) unrhyw weithgaredd symud o’r fath sy’n debygol o gael effaith arwyddocaol ar Ardal Forol Warchodedig.
(e) unrhyw weithgaredd symud o’r fath sy’n dod o fewn ardal gyfyngedig o fewn ystyr adran 1 o Ddeddf Diogelu Llongddrylliadau 1973, neu henebion cofrestredig, fel y’u diffinnir yn Rhan 2 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 a Deddf Diogelu Gweddillion Milwrol 1986.

**Rheswm:** Risg isel, yn amodol ar fodloni amodau angenrheidiol yr esemptiad.

**Deifwyr yn cael gwared ar sbwriel**

(1) mae’r esemptiad yn gymwys i symud y canlynol yn ystod gweithgareddau deifio:
(a) sbwriel morol; a
(b) offer pysgota wedi’u gadael, eu taflu neu eu colli.

(2) nid yw’r esemptiad yn gymwys i unrhyw weithgaredd symud—
(a) sy’n debygol o achosi difrod i nodweddion o ddiddordeb archaeolegol neu hanesyddol mewn ardal lle mae’r gweithgareddau deifio yn digwydd, neu
(b) unrhyw weithgaredd symud sy’n debygol o gael effaith arwyddocaol ar Ardal Forol Warchodedig.

(3) Ystyr ‘sbwriel morol’ yw unrhyw ddeunydd solet parhaus, wedi’i weithgynhyrchu neu wedi’i brosesu sy’n cael ei daflu, ei waredu neu ei adael yn yr amgylchedd morol ac arfordirol.

(4) Mae ‘malurion’ yn cynnwys gweddillion o rywbeth sydd wedi’i ddinistrio neu ddarnau o ddeunydd diangen neu wedi’i daflu sy’n cael ei wasgaru o gwmpas.

**Rheswm:** Risg isel.

**Dyddodion damweiniol – gweithgaredd symud**

(1) mae’r esemptiad yn gymwys i weithgaredd symud a gyflawnir at ddiben symud unrhyw wrthrych sydd wedi’i ddyddodi’n ddamweiniol ar wely’r môr.

(2) mae’r esemptiad yn ddarostyngedig i’r amod a ganlyn bod rhaid cychwyn y gweithgaredd symud o fewn y cyfnod o 12 mis sy’n dechrau ar y diwrnod y dyddodwyd y gwrthrych yn ddamweiniol ar wely’r môr.

(3) nid yw’r esemptiad yn gymwys—
(a) i unrhyw weithgaredd symud o’r fath sy’n achosi, neu’n debygol o achosi, rhwystr neu berygl i fordwyo
(b) i unrhyw weithgaredd symud o’r fath sy’n debygol o gael effaith arwyddocaol ar Ardal Forol Warchodedig.

**Rheswm:** Risg isel, yn amodol ar fodloni amodau angenrheidiol yr esemptiad.

**Carthu cynnal a chadw at ddibenion mordwyo**

(1) mae’r esemptiad yn gymwys i weithgaredd carthu a gyflawnir at ddiben cadw neu gynnal mordwyo ardal o’r môr.

| |
|---|
| (2) Mae’r esemptiad yn ddarostyngedig i’r amodau a ganlyn:<br>(a) Amod 1 yw mai dim ond ar safle ac ar ddyfnder y ceir cynnal y gweithgaredd carthu pan fo o leiaf un gweithgaredd carthu arall wedi’i wneud at y dibenion y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yn ystod y deng mlynedd cyn i’r gweithgaredd carthu ddechrau.<br>(b) Amod 2 yw ar y safle lle mae’r gweithgaredd carthu i’w gynnal, ni ddylai cyfaint y deunydd sydd i’w garthu o ganlyniad i’r gweithgaredd ynghyd â chyfaint y deunydd a garthwyd o’r un safle dros y 12 mis diwethaf neu gyfnod cyfunol o 12 mis treigl fod yn fwy na 1,500 metr ciwbig.<br><br>(3) nid yw’r esemptiad yn gymwys—<br>a) i unrhyw weithgaredd carthu o’r fath pan fo cyfaint y deunydd sydd i’w garthu o ganlyniad i’r gweithgaredd yn fwy na 500 metr ciwbig.<br>b) i garthu cyfalaf.<br>c) i unrhyw weithgaredd carthu fydd yn achosi neu’n debygol o achosi rhwystr neu berygl i fordwyo.<br>d) i unrhyw weithgaredd carthu sy’n debygol o gael effaith arwyddocaol ar Ardal Forol Warchodedig.<br>e) i unrhyw weithgaredd carthu o’r fath sy’n debygol o effeithio ar statws y corff dŵr neu atal cyflawni unrhyw amcanion amgylcheddol a restrir yn y Cynllun Rheoli Basn Afon perthnasol.<br>f) i unrhyw warediad o ddeunydd a garthwyd. |
| **Rheswm:** Risg isel, yn amodol ar fodloni amodau angenrheidiol yr esemptiad. |
| **Marcwyr dros dro**<br><br>(1) mae’r esemptiad yn gymwys—<br>(a) i weithgaredd dyddodi a gyflawnir at y diben o osod marciwr i farcio ardaloedd ar gyfer gweithgareddau hamdden megis hwylio, nofio neu ddeifio.<br>(b) i weithgaredd symud a gyflawnir at ddiben bodloni’r amod ym mharagraff (4).<br><br>(2) Mae paragraff (1) yn ddarostyngedig i’r amod bod rhaid rhoi hysbysiad o’r bwriad i gynnal y gweithgaredd dyddodi i Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau a Trinity House cyn i’r gweithgaredd gael ei gyflawni, ac eithrio pan fo’r gweithgaredd yn cynnwys gosod marciwr a thynnu’r marciwr hwnnw wedyn o fewn 24 awr i’r dyddodi.<br><br>(4) Mae paragraff 1(b) yn ddarostyngedig i’r amod bod rhaid symud y marciwr ac unrhyw gyfarpar cysylltiedig o’r môr a, phan fo’n gymwys, gwely’r môr o fewn y cyfnod o 28 diwrnod sy’n dechrau ar y diwrnod y gwneir y dyddodi.<br><br>(5) Nid yw’r esemptiad yn gymwys—<br>(a) i unrhyw weithgaredd dyddodi neu symud sy’n achosi neu’n debygol o achosi rhwystr neu berygl i fordwyo, neu<br>(b) i unrhyw weithgaredd dyddodi neu symud sy’n debygol o gael effaith arwyddocaol ar Ardal Forol Warchodedig. |
| **Rheswm:** Risg isel, yn amodol ar fodloni amodau angenrheidiol yr esemptiad. |

**Defnyddio cerbydau neu longau i gael gwared ar sbwriel a malurion morol**

(1) Mae’r esemptiad yn berthnasol i weithgaredd symud sy’n defnyddio cerbyd neu long a weithredir gan neu ar ran awdurdod lleol, awdurdod harbwr lleol o fewn ei awdurdodaeth, neu Cyfoeth Naturiol Cymru at ddiben symud:

(a) sbwriel morol, malurion, neu anifeiliaid byw neu farw o draeth neu’r ardal rynglanwol, a

(b) offer pysgota wedi’u gadael, eu taflu neu eu colli.

2) Mae paragraff 1 yn ddarostyngedig i’r amod bod hysbysiad o’r bwriad i symud anifail byw neu farw yn cael ei roi i’r awdurdod gorfodi o leiaf 72 awr cyn ymgymryd â gweithgareddau symud.

(3) nid yw’r esemptiad yn berthnasol:

(a) i unrhyw weithgaredd symud sy’n debygol o gael effaith arwyddocaol ar Ardal Forol Warchodedig,

(b) i unrhyw weithgaredd symud sy’n debygol o achosi difrod i nodweddion o ddiddordeb archaeolegol neu hanesyddol mewn ardal lle mae’r gweithgaredd symud yn digwydd.

**Rheswm:** Risg isel.

**Adfer morwellt**

(1) Mae’r esemptiad yn gymwys i unrhyw weithgaredd dyddodi neu symud a gyflawnir gan ddefnyddio cerbyd neu long at ddibenion sefydlu neu adfer dôl morwellt.

(2) Mae’r esemptiad yn gymwys—

(a) i ddyddodi unrhyw hadau morwellt o rywogaethau brodorol, neu doriad neu blanhigyn morwellt, wrth adfer dolydd morwellt;

(b) i weithgaredd symud a gyflawnir at ddiben symud hadau, toriad neu blanhigyn morwellt yn ystod adfer dolydd morwellt nad yw’n cael effaith negyddol ar y ddôl gyfrannol (<10% o’r allbwn atgenhedlu).

c) i symud creiddiau neu dyweirch morwellt er mwyn symud hadau morwellt, gwaddod, toriad neu blanhigyn wrth adfer dolydd morwellt nad yw’n cael effaith negyddol ar y ddôl gyfrannol.

(3) Mae’r esemptiad yn ddarostyngedig i’r amodau a ganlyn:

(a) Amod 1 yw y ceisir caniatâd ymlaen llaw gan Asiantaeth Gwylwyr y Glannau a Trinity House cyn i unrhyw weithgareddau dyddodi neu symud gychwyn.

2) Amod 2 yw bod yr hadau, y toriad neu’r planhigyn morwellt brodorol yn rhydd o rywogaethau estron goresgynnol.

(4) nid yw’r esemptiad yn gymwys—

a) i unrhyw ddyddodi a wneir at y diben o waredu;
b) i unrhyw weithgaredd dyddodi neu symud sy'n achosi neu'n debygol o achosi rhwystr neu berygl i fordwyo,
c) i unrhyw weithgaredd dyddodi neu symud o'r fath sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar Ardal Forol Warchodedig,
d) i unrhyw weithgaredd dyddodi neu symud o'r fath sy'n debygol o achosi difrod i nodweddion o ddiddordeb archaeolegol neu hanesyddol.
e) i ddyddodi unrhyw ddeunyddiau anfiodiraddadwy neu sylweddau niweidiol.

**Rheswm:** Risg isel, yn amodol ar fodloni amodau angenrheidiol yr esemptiad.

**Adeiladu gweithiau newydd ar gyfer amddiffyn yr arfordir rhag llifogydd**

(1) mae'r esemptiad yn gymwys i unrhyw weithgaredd dyddodi neu symud a gyflawnir gan neu ar ran Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd at y diben o adeiladu gweithiau newydd ar gyfer amddiffyn yr arfordir rhag llifogydd pan fo angen caniatâd cynllunio lleol perthnasol.

(2) nid yw'r esemptiad yn gymwys
(a) i unrhyw weithgaredd adeiladu, dyddodi neu symud sy'n ymestyn islaw marc distyll cymedrig y gorllanw.
(b) i unrhyw weithgaredd adeiladu, dyddodi neu symud sy'n achosi neu'n debygol o achosi rhwystr neu berygl i fordwyo,
(c) i unrhyw weithgaredd adeiladu, dyddodi neu symud sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar Ardal Forol Warchodedig sydd wedi'i lleoli o dan farc distyll cymedrig y gorllanw.
(d) i unrhyw weithgaredd adeiladu, dyddodi neu symud sy'n debygol o achosi difrod i nodweddion o ddiddordeb archaeolegol neu hanesyddol sydd wedi'u lleoli o dan farc distyll cymedrig y gorllanw.

(3) Ym mharagraff (1), ystyr Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd yw'r awdurdodau hynny fel y'u diffinnir yn Neddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.

(4) Mae'r esemptiad yn ddarostyngedig i'r amod bod Swyddfa Hydrograffeg y DU yn cael ei hysbysu o unrhyw weithgareddau dyddodi neu symud o'r fath o leiaf pum diwrnod cyn i weithgareddau ddechrau.

**Rheswm:** Yn osgoi dyblygu rheoliadau pan fo angen caniatâd cynllunio.

**Cyfleusterau doc sych**

(1) mae'r esemptiad yn gymwys i weithgaredd dyddodi neu symud a ymgymerir mewn ardal doc sych, o fewn harbwr a reoleiddir o dan Ddeddf Harbyrau 1964, a phan gyflawnir y gweithgaredd gan awdurdodau harbwr statudol neu'r rhai sy'n gweithredu ar ran neu gyda chaniatâd awdurdod harbwr statudol.

(2) mae'r esemptiad yn ddarostyngedig i'r amodau a ganlyn:

| |
|---|
| (a) Amod 1 yw bod hysbysiad o'r bwriad i gynnal unrhyw weithgaredd dyddodi neu symud yn cael ei roi i Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau a Trinity House cyn i unrhyw weithgaredd dyddodi neu symud gael ei gyflawni.<br>(b) Amod 2 yw bod yr holl weddillion yn cael eu symud o'r doc sych cyn unrhyw doriad arfaethedig sy'n gysylltiedig â mynediad neu ymadawiad unrhyw long, adeiledd ac ati.<br><br>(3) nid yw'r esemptiad yn berthnasol:<br>(a) i unrhyw weithgaredd dyddodi neu symud sy'n achosi neu sy'n debygol o achosi rhwystr neu berygl i fordwyo,<br>(b) i unrhyw weithgaredd dyddodi neu symud o'r fath sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar Ardal Forol Warchodedig,<br>(c) i unrhyw weithgaredd dyddodi neu symud sy'n debygol o achosi difrod i nodweddion o ddiddordeb archaeolegol neu hanesyddol. |
| **Rheswm:** Wedi'i reoleiddio drwy'r gyfundrefn trwyddedu amgylcheddol - mae'n osgoi dyblygu rheoliadau. |
| **Gollwng cemegau ac olew ar y môr**<br><br>(1) mae'r esemptiad yn gymwys i unrhyw weithgaredd y mae angen trwydded mewn perthynas ag ef o dan:<br>a) Rheoliadau Cemegau Alltraeth 2002, neu<br>b) Rheoliadau Gweithgareddau Petrolewm Alltraeth (Atal a Rheoli Llygredd Olew) 2005. |
| **Rheswm:** Osgoi dyblygu rheoliadau. |
| **Cael gwared ar dywod a chwythwyd gan y gwynt**<br><br>(1) mae'r esemptiad hwn yn gymwys i weithgaredd dyddodi neu symud at y diben o glirio tywod a chwythwyd ar bromenadau, ffyrdd neu lithrfeydd yn dilyn storm.<br><br>(2) mae'r esemptiad yn ddarostyngedig i'r amodau a ganlyn:<br>(a) Amod 1 yw bod y tywod yn rhydd o sbwriel morol, malurion neu halogion tir cyn iddo gael ei symud yn ôl i'r traeth y deilliwyd ohono.<br>(b) Amod 2 yw bod y tywod yn cael ei ddyddodi yn yr ardal y tarddodd ohoni ddim mwy na saith diwrnod ar ôl symud deunydd yn ystod storm. |
| **Rheswm:** Risg isel, yn amodol ar fodloni amodau angenrheidiol yr esemptiad. |
| **Pontynau**<br><br>(1) mae'r esemptiad yn gymwys:<br>(a) i weithgaredd dyddodi neu weithiau a ymgymerir gan, neu gyda chaniatâd sy'n ofynnol gan, ac a roddwyd gan, awdurdod harbwr statudol at ddiben darparu pontŵn, y mae'n rhaid iddo fod yn rhydd rhag rhywogaethau estron goresgynnol.<br>(b) i weithgaredd symud a ymgymerir gan neu gyda chaniatâd sy'n ofynnol ac a roddwyd gan awdurdod harbwr at y diben o symud pontŵn.<br><br>(2) Mae is-baragraff (a) o baragraff (1) yn ddarostyngedig i'r amodau a ganlyn— |

| |
|---|
| (a) Amod 1 yw bod y gweithgaredd yn cael ei gyflawni gan, neu gyda'r caniatâd sy'n ofynnol gan awdurdod harbwr statudol a'i roi ganddo.<br>(b) Amod 2 yw, yn y chwe mis cyn i'r gweithgaredd ddechrau, fod mwy na deg pontŵn wedi'u hadeiladu neu eu dyddodi gan yr awdurdod hwnnw, neu gyda chaniatâd sy'n ofynnol gan yr awdurdod hwnnw ac wedi'i roi ganddo.<br>(c) Amod 3 yw bod y cod morol diogelwch porthladdoedd perthnasol yn cael ei ddilyn, sy'n cynnwys hysbysu Swyddfa Hydrograffeg y DU o unrhyw waith.<br><br>(3) Nid yw'r esemptiad yn berthnasol:<br>(a) i unrhyw weithgaredd o'r fath sy'n cynnwys dyddodi, adeiladu neu symud pontŵn y mae ei ddec ag arwynebedd o fwy na 30 metr sgwâr.<br>(b) i unrhyw annedd neu adeiledd parhaol neu isadeiledd a osodir ar ben pontŵn. |
| **Rheswm:** Risg isel, yn amodol ar fodloni amodau angenrheidiol yr esemptiad. |

## Tabl 4. Esemptiadau sydd wedi'u cynnwys yng Ngorchymyn Esemptiadau 2011 i'w dileu fel gweithgaredd esempt

| |
|---|
| **Twneli turiedig**<br><br>(1) mae'r esemptiad yn gymwys i weithgaredd dyddodi neu weithiau a gyflawnir yn gyfan gwbl o dan wely'r môr mewn cysylltiad ag adeiladu neu weithredu twnnel wedi'i dyllu.<br><br>(2) Mae paragraff (1) yn ddarostyngedig i amodau 1 a 2.<br>(3) Amod 1 yw bod rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig o'r bwriad i gynnal y gweithgaredd i'r awdurdod trwyddedu cyn i'r gweithgaredd gael ei gyflawni.<br><br>(4) Amod 2 yw na ddylai'r gweithgaredd effeithio'n andwyol ar amgylchedd Cymru, rhanbarth glannau Cymru a rhanbarth alltraeth Cymru na'r adnoddau byw y maent yn eu cynnal.<br><br>(5) Ond nid yw erthygl 4 yn gymwys i unrhyw ddyddodi o'r fath a ymgymerir at y diben o waredu. |
| **Rheswm:** Ystyrir bod yr esemptiad yn rhy eang a gallai fod yn berthnasol yn anfwriadol i ddyddodi ac adeiladu adeileddau mewn twneli turiedig. |
| **Defnyddio cerbydau i gael gwared ar sbwriel neu wymon o draethau** |

| |
|---|
| (1) mae'r esemptiad yn berthnasol i weithgaredd symud sy'n defnyddio cerbyd, a weithredir gan neu ar ran awdurdod lleol, at ddiben symud unrhyw sbwriel neu wymon oddi ar draeth.<br><br>(2) Ond nid yw'r esemptiad yn gymwys i unrhyw weithgaredd symud o'r fath—<br>(a) sy'n dod o fewn is-baragraff (a) neu (b) o baragraff (3); a<br>(b) nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â'r gwaith o reoli'r safle y cyfeirir ato yn yr is-baragraff hwnnw nac yn angenrheidiol ar gyfer hynny.<br><br>(3) Mae gweithgaredd yn dod o fewn y paragraff hwn os—<br>(a) os yw'n gynllun neu brosiect sy'n debygol (naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill) o gael effaith arwyddocaol ar safle Ewropeaidd; neu<br>(b) ei fod yn debygol o gael effaith sylweddol ar Safle Ramsar.<br><br>(4) Ym mharagraff (1), mae i "awdurdod lleol" yr ystyr a roddir gan adran 68(9) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir.<br><br>(5) Ym mharagraff (3) (a) a (b), mae i "tebygol" yr un ystyr ag sydd gan "likely" yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC ar gadwraeth cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt. |
| **Rheswm:** Wedi'i ddileu - wedi'i gyfuno ag esemptiad newydd sy'n galluogi cael gwared ar sbwriel |

## Cwestiynau

Rydym yn croesawu eich barn ar yr esemptiadau arfaethedig, yn benodol:

**Cwestiwn 1:** A ydych yn cytuno â'r esemptiadau arfaethedig, gan gynnwys unrhyw amodau cysylltiedig? Os na, eglurwch pam yr ydych yn anghytuno ag esemptiad arfaethedig.

**Cwestiwn 2:** A ydych yn cytuno y dylem ymestyn yr esemptiad yn Nhabl 2 uchod sy'n eithrio cynnal a chadw amddiffynfeydd yr arfordir ac amddiffynfeydd rhag llifogydd i fod yn berthnasol hefyd i bob Awdurdod Rheoli Perygl Llifogydd?

Mae'n bosibl y bydd y gwelliant hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd gael caniatâd i wneud gwaith o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016, lle mae'n bosibl na fydd angen caniatâd ar gyfer rhai gweithgareddau ar hyn o bryd os gwnaed cais am drwydded forol. A ydych yn rhagweld unrhyw ganlyniadau arwyddocaol i Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd o ganlyniad i'r newid hwn, gan gynnwys unrhyw oblygiadau cost sylweddol? Os felly, esboniwch beth yw'r canlyniadau.

**Cwestiwn 3:** A oes unrhyw weithgareddau eraill nad ydym wedi'u cynnwys yn y tablau y teimlwch y dylid eu heithrio? Wrth ystyried y cwestiwn hwn, a fyddech cystal â chynnwys unrhyw dystiolaeth bod y gweithgaredd yn un risg isel, eisoes wedi'i reoleiddio'n well, neu y byddai ei angen i ddelio â sefyllfa o argyfwng.

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 4:** A ydych yn cytuno y dylid dileu twneli turiedig fel gweithgaredd esempt?

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 5:** Os ydych yn bwriadu cyflawni gweithgaredd newydd esempt, a oes gennych unrhyw dystiolaeth o'r arbedion cost y byddwch yn eu gwneud os na fydd angen mwyach i wneud cais am drwydded forol? Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i lywio ein Hasesiad Effaith Rheoleiddiol terfynol.

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 6:** Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol gorchymyn gweithgareddau esempt fel y'i cynigir yn yr ymgynghoriad hwn ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- A ydych yn meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
- A ydych yn meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?

**Cwestiwn 7:** Yn eich barn chi, a ellid llunio neu newid gorchymyn gweithgareddau esempt er mwyn:

- cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu
- liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

**Cwestiwn 8:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech wneud sylwadau ar faterion eraill nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt uchod, defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod amdanynt:

**Mae'n debygol y caiff ymatebion i ymgynghoriadau eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Ticiwch yma os yw'n well gennych i'ch ymateb fod yn ddienw:**

## Asesiadau effaith

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael ei ddrafftio i gefnogi'r penderfyniad ynghylch a ddylid gwneud gorchymyn esemptiadau newydd. Mae drafft cychwynnol o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i'w weld yn Atodiad A, a bydd yn cael ei gwblhau ar ôl yr ymgynghoriad. Mae Asesiad Effaith Integredig hefyd wedi'i baratoi, gyda'r diben o alluogi Llywodraeth Cymru i ystyried mewn ffordd strwythuredig effaith y polisïau a chamau gweithredu arfaethedig ar bobl Cymru. Mae'r Asesiad Effaith Integredig yn cynnwys, er enghraifft, asesiad o'r effaith ar hawliau plant, asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, ac asesiad o'r effaith ar y Gymraeg. Mae'r Asesiad Effaith Integredig hefyd yn gofyn am asesiad o'r effaith amgylcheddol y gall unrhyw orchymyn eithrio newydd ei pheri.

Yn ein hystyriaeth fanwl o'r adolygiad o esemptiadau trwydded forol, nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd, yr economi nac unrhyw berson, busnes neu gymuned o ganlyniad i gyflwyno gorchymyn gweithgareddau esempt newydd. Mae cyflwyno unrhyw orchymyn i eithrio gweithgareddau penodol rhag cymhwyso proses reoleiddio wedi'i gynllunio i gael effaith gadarnhaol ar fusnesau, unigolion a chyrff cyhoeddus sydd â buddiant mewn trwyddedu morol. Mae effeithiau cadarnhaol yn arwain at arbedion cost ac amser i bob corff sy'n ymwneud â'r broses trwyddedu morol o'r dechrau i'r diwedd. Ni fyddai angen i ymgeiswyr baratoi a gwneud cais am drwydded forol mwyach. Ni fyddai angen ymgynghori â chyrff technegol mwyach ar geisiadau i CNC, oni bai y nodir hynny gan y gorchymyn, gan ddileu'r angen i asesu, penderfynu a rheoli ceisiadau am drwyddedau morol pan fo esemptiad yn berthnasol.

Bydd eithrio gweithgareddau o'r broses trwyddedu morol felly'n cael effaith gadarnhaol ar ffyniant economaidd Cymru, gan gefnogi amcanion y llywodraeth ar gyfer rheoli ardal forol Cymru yn gynaliadwy a galluogi gweithgarwch wrth sicrhau bod yr amgylchedd yn parhau i gael ei warchod.

Wrth gyflwyno gorchymyn esemptiadau, rhaid i weinidogion roi sylw i ddiogelu'r amgylchedd ac iechyd pobl ac atal ymyrraeth â defnyddiau cyfreithlon eraill o'r môr. Cynigir gweithgareddau ar gyfer esemptiad yn unig pan fyddant wedi'u hasesu fel risg isel, maent eisoes wedi'u rheoleiddio, neu mae angen gweithredu i atal neu ymdrin ag argyfwng. Mae hyn yn sicrhau bod effeithiau ar yr amgylchedd, iechyd dynol neu ddefnyddwyr eraill y môr yn cael eu hosgoi, a phan fo esemptiadau yn ddarostyngedig i amodau, os na ellir bodloni'r amodau hyn, yna mae angen trwydded forol i ddiogelu rhag unrhyw effeithiau negyddol.

## Canlyniad

Yn dilyn ymgynghoriad, a chytundeb gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, bydd Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2025 yn cael ei wneud o dan adran 74 o'r Ddeddf.

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (os yn berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ac ar gyfer unrhyw ddata personol y byddwch yn ei ddarparu fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hwn, a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â sut y byddant yn ymarfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru (Erthygl 6(1)(e)).

Bydd unrhyw ymateb sy'n cael ei anfon atom gennych yn cael ei weld yn llawn gan aelodau staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn neu wrth gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol. Yn achos ymgynghoriadau ar y cyd, gall hyn hefyd gynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill. Os bydd Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yna gellid comisiynu trydydd parti achrededig i wneud y gwaith hwn (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori).Gwneir unrhyw waith o'r fath o dan gontract yn unig. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r math hwn yn gosod gofynion llym ar gyfer prosesu a diogelu data personol.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn gywir, mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel rheol, caiff enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw neu eich cyfeiriad gael ei gyhoeddi, dywedwch hyn wrthym yn ysgrifenedig pan fyddwch yn anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn eu hepgor cyn cyhoeddi.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth ac y gallai fod rhwymedigaeth gyfreithiol ar Lywodraeth Cymru i ddatgelu rhywfaint o wybodaeth.

Os cyhoeddir eich manylion fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau cyhoeddedig hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw ddata a gedwir gan Lywodraeth Cymru amdanoch fel arall yn cael ei gadw am hyd at dair blynedd yn unig.

## Eich hawliau

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych chi'r hawliau canlynol:

- i gael eich hysbysu am y data personol a gedwir amdanoch chi ac i gael mynediad ato
- i ofyn i ni gywiro unrhyw anghywirdebau yn y data hwnnw
- i wrthwynebu neu gyfyngu ar y gwaith (mewn rhai amgylchiadau penodol) o brosesu'r data
- i'ch data gael ei 'ddileu' (mewn rhai amgylchiadau)
- i gludadwyedd data (mewn rhai amgylchiadau)
- i leisio cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

Am fanylion pellach ynglŷn â'r wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a sut y caiff ei defnyddio, neu os ydych chi'n dymuno ymarfer eich hawliau yn unol â GDPR y DU, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost: swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Dyma'r manylion cyswllt ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

# Atodiad A – Asesiad Effaith Rheoleiddiol (drafft)

## 1. Opsiynau

Amcan Llywodraeth Cymru yw cael gorchymyn esemptiadau trwyddedu morol sy'n addas at y diben. Yn unol â'r Ddeddf, dim ond drwy orchymyn a wneir o dan adran 74 o'r Ddeddf y gellir eithrio gweithgareddau, felly mae'r opsiynau sydd ar gael a allai gyflawni'r amcan polisi wedi'u cyfyngu i fusnes fel arfer neu gyflwyno deddfwriaeth newydd. Argymhellir y ddau opsiwn, a nodir y costau sy'n gysylltiedig â'r opsiynau hyn isod.

a) **Busnes fel arfer**

Gallai Gweinidogion Cymru gadw'r esemptiadau a nodir yng Ngorchymyn Esemptiadau 2011 heb unrhyw ddiwygiadau, diweddariadau nac esemptiadau newydd. Fodd bynnag, byddai cymhwyso'r opsiwn hwn yn golygu efallai na fyddai'r rhestr lawn o weithgareddau esempt yng Nghymru yn addas ar gyfer y dyfodol a bydd yn parhau i fod yn anghyson â'r gorchmynion eithrio a gyflwynwyd ar gyfer Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, gan roi Cymru dan anfantais o bosibl.

b) **Gwneud gorchymyn newydd i ddiweddaru'r gweithgareddau esempt**

Er mwyn sicrhau bod trwyddedu morol yn cyflawni amcanion y llywodraeth, yn parhau i fod yn gymesur ac yn gyson ag esemptiadau trwydded forol ledled y DU lle bo'n briodol, ystyrir ei bod yn angenrheidiol defnyddio pwerau Gweinidogion Cymru o dan adran 74 o'r Ddeddf i gyflwyno gorchymyn newydd. Byddai gorchymyn newydd yn cadw rhai o'r esemptiadau presennol heb unrhyw newidiadau, yn diweddaru'r amodau ar gyfer rhai esemptiadau presennol i sicrhau ei bod yn parhau'n briodol i eithrio'r gweithgaredd, ac yn cyflwyno gweithgareddau esempt newydd.

## 2. Costau a manteision

Mae costau a manteision pob opsiwn a nodir uchod fel a ganlyn:

### Opsiwn a) Busnes fel arfer

Mae'r gweithgareddau presennol sydd wedi'u heithrio rhag bod angen trwydded forol wedi elwa ar esemptiad ers 2011. Gan fod esemptiadau yn dileu'r gofyniad i berson gael trwydded forol ac felly i dalu ffi, nid ydym yn cadw unrhyw wybodaeth ariannol am yr arbedion cost sydd wedi digwydd ac a fyddai'n parhau i fod yn berthnasol pe bai'r esemptiadau presennol yn cael eu cadw heb eu newid.

Fodd bynnag, byddai'r opsiwn hwn yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar unrhyw berson sy'n dymuno ymgymryd ag unrhyw weithgaredd a nodir ar hyn o bryd gan Orchymyn Gweithgareddau Esempt 2011, gan fod yr esemptiad yn

dileu'r gofyniad am drwydded forol ac felly'n dileu'r costau sy'n gysylltiedig â gwneud cais am drwydded forol ac unrhyw gostau rheoli parhaus i sicrhau cydymffurfedd â thelerau trwydded forol.

**Opsiwn b) Gwneud gorchymyn newydd i ddiweddaru'r gweithgareddau esempt**

Mae CNC wedi darparu tystiolaeth i lywio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n darparu data o 2017 i 2023, gan gwmpasu'r cyfnod pan ddaeth Rheoliadau Trwyddedu Morol (Ffioedd) (Cymru) 2017 i rym. Mae data CNC yn ymwneud â gweithgareddau esempt newydd, pan fyddai cais am drwydded forol yn cael ei wneud pe na bai'r esemptiad yn ei le.

Yn seiliedig ar dystiolaeth CNC ar gyfer esemptiadau newydd, bydd arbedion cost i unrhyw berson, busnes neu sefydliad sy'n dymuno ymgymryd â gweithgaredd esempt newydd tua £15,600 y flwyddyn, yn seiliedig ar nifer y ceisiadau, nifer yr amrywiadau, a'r gost ar gyfer cyflawni amodau trwydded yn ystod cyfnod o 6.75 mlynedd (2017-2023). Gwneir yr arbedion o beidio â gorfod gwneud cais am drwydded forol, amrywio trwydded, neu gyflawni unrhyw amodau trwydded. Rhagwelir y bydd sefydliadau, busnesau ac unigolion hefyd yn arbed costau sy'n gysylltiedig â pharatoi cais am drwydded forol. Ni allwn fesur y costau hyn gan eu bod ar wahân i bob sefydliad, busnes neu unigolyn a byddant yn dibynnu ar y gweithgaredd trwyddedadwy y maent yn dymuno ei wneud, ond disgwyliwn y bydd y rhain yn arbedion cost bychain i gymedrol.

Bydd effaith gadarnhaol hefyd i CNC. Mae CNC wedi amcangyfrif ei fod wedi mynd i gostau o £12,700 y flwyddyn (a gyfrifir fel gwerth amser staff, llai gwerth y ffi ymgeisio a dderbyniwyd) ar gyfer ceisiadau am drwyddedau morol yn ystod y cyfnod 2020-2023 yn y meysydd y cynigir bellach eu heithrio. Mae'r gost oherwydd nad yw'r broses trwyddedu morol yn gweithredu ar hyn o bryd ar sail adennill costau llawn. Mae'r ffigwr a gyflwynir yn dangos gwerth yr amser a dreuliwyd gan staff ar brosesu ceisiadau y mae esemptiad newydd yn cael ei gynnig ar eu cyfer ar hyn o bryd. Felly, er nad oes disgwyl i hyn arwain at arbedion ariannol, bydd cyflwyno'r esemptiadau newydd yn rhyddhau amser swyddogion achos i ganolbwyntio ar y gweithgareddau sydd dal angen trwydded forol.

Yn ogystal ag ymgeiswyr a deiliaid trwydded, disgwylir hefyd y bydd y cyrff technegol yr ymgynghorir â hwy yn rheolaidd gan CNC ynghylch ceisiadau am drwyddedau morol yn gwneud arbedion. Ymysg yr arbenigwyr technegol mae, er enghraifft, Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, Trinity House a

chynghorwyr CNC. Bydd dileu'r gofyniad am eu cyngor ar rai ceisiadau yn arbed arian i'r cyrff cyhoeddus hyn pan na allant godi neu adennill costau am ddarparu cyngor ar hyn o bryd. Bydd hefyd yn rhyddhau amser yr arbenigwyr technegol, gan eu galluogi i ganolbwyntio ar weithgarwch trwyddedadwy sy'n fwy cymhleth ac a allai effeithio'n sylweddol ar yr amgylchedd, iechyd dynol, neu ddefnyddwyr eraill y môr. Nid yw'n bosibl mesur y costau hyn gan nad ydym yn cadw'r wybodaeth ariannol, a fyddai'n arwahanol i bob arbenigwr technegol. Bydd yr arbedion cost a wireddwyd hefyd yn amrywio oherwydd efallai y bydd dal angen i rai arbenigwyr technegol, megis Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau a Trinity House, gynghori unrhyw berson sy'n dymuno ymgymryd â gweithgaredd esempt ar faterion mordwyo – er enghraifft, os gallai amodau esemptiad olygu bod angen eu cyngor gan berson, sefydliad neu fusnes i elwa o esemptiad.

Yn dilyn ein hasesiad o effeithiau posibl, ni ddisgwylir i eithrio'r gweithgareddau a gynigir gael effaith andwyol ar amgylchedd nac economi Cymru. Yn gyffredinol, bwriedir i opsiynau a) a b) gael effeithiau economaidd cadarnhaol. Ceir dadansoddiad o'r costau a ddarparwyd gan CNC yn nhablau 1-5 isod.

## 3. Asesiad cystadleuaeth

Diben gorchymyn gweithgareddau esempt yw dileu rhai gweithgareddau ar gyfer yr angen am drwydded forol, gan leihau'r baich rheoleiddiol a chost ar unrhyw berson sy'n dymuno ymgymryd â gweithgaredd esempt.

Mae'r prawf hidlo cystadleuaeth wedi'i gwblhau ac nid ydym yn disgwyl i unrhyw orchymyn gweithgareddau esempt a wneir o dan adran 74 o'r Ddeddf gael effaith andwyol ar gystadleuaeth yng Nghymru nac ar gystadleurwydd busnesau Cymru.

## 4. Adolygiad ar ôl gweithredu

Mae'n arfer da adolygu gweithgareddau sydd wedi'u heithrio rhag bod angen trwydded forol er mwyn sicrhau ei bod yn dal yn briodol parhau i eithrio rhai gweithgareddau gan fod yn rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i ddiogelu'r amgylchedd, iechyd dynol a defnyddwyr eraill y môr wrth eithrio gweithgareddau trwyddedadwy.

Rydym yn bwriadu adolygu'r gweithgareddau esempt bob pum mlynedd.

**Tabl 1. Costau a dalwyd gan ymgeiswyr rhwng 2017 a 2023 pan dderbyniodd CNC gais am esemptiadau arfaethedig newydd**

| **Esemptiadau newydd** | **2017** | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** | **2023** | **Cyfanswm y ffioedd a dalwyd gan ymgeiswyr (2017-2023)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynnal a chadw pontydd ac adeileddau cantilifrog, gan gynnwys cynnal a chadw glanfeydd a phierau | 2xBand 1<br>2xBand 2 | 4xBand 1<br>1xBand 2 | 4xBand 1 | 5xBand 1<br>7xBand 2 | 3xBand 1<br>3xBand 2 | 3xBand 1<br>1xBand 2 | 1xBand 1<br>3xBand 2 | **£45,840.00** |
| Arddangosfeydd tân gwyllt | 1xBand 1 | 1xBand 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **£1,200.00** |
| Samplu cydio o wely'r môr | 2xBand 1<br>1xBand 2 | 8xBand 1<br>1xBand 2 | 3xBand 1 | 0 | 2xBand 1 | 8xBand 1 | 1xBand 1 | **£18,240.00** |
| Carthu cynnal a chadw at ddibenion mordwyo | 1xBand 1<br>1xBand 2 | 0 | 0 | 0 | 2xBand 2 | 0 | 0 | **£6,360.00** |
| Pontynau | 2xBand 2 | 2xBand 2 | 0 | 2xBand 2 | 0 | 0 | 0 | **£11,520.00** |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prosiectau adfer amgylcheddol (adfer cynefinoedd) | 0 | 0 | 1xBand 1 | 0 | 1xBand 2 | 0 | 0 | **£2,520.00** |
| Gwaith amddiffyn rhag llifogydd arfordirol newydd | 1xBand 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **£1,920.00** |
| Cael gwared ar dywod a chwythwyd gan y gwynt | 0 | 3xBand 1 | 1xBand 1 | 0 | 1xBand 1 | 1xBand 1 | 1xBand 2 | **£5,520.00** |
| **Cyfanswm Band 1*** | £3,600.00 | £9,600.00 | £5,400.00 | £3,000.00 | £3,600.00 | £7,200.00 | £1,200.00 | |
| **Cyfanswm Band 2**** | £13,440.00 | £7,680.00 | £0.00 | £17,280 | £11,520 | £1,920.00 | £7,680.00 | |
| **Prif gyfanswm** | £17,040.00 (heb gynnwys TAW) | £17,280.00 (heb gynnwys TAW) | £5,400.00 (heb gynnwys TAW) | £20,280 (heb gynnwys TAW) | £15,120 (heb gynnwys TAW) | £9,120.00 (heb gynnwys TAW) | £8,880.00 (heb gynnwys TAW) | **£93,120 (heb gynnwys TAW)** |

***Cyfrifir ffioedd Band 1 yn £600 fesul cais**

****Cyfrifir ffioedd Band 2 yn £1,920 fesul cais**

**Tabl 2. Costau i CNC ar gyfer prosesu ceisiadau rhwng 2020 a 2023**

| Esemptiad newydd | Cost fesul awr i CNC yn y flwyddyn galendr, wedi'i chyfrifo yn £120/awr | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2017** | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** | **2023** | **CYFANSWM** |
| Cynnal a chadw pontydd ac adeileddau cantilifrog, gan gynnwys cynnal a chadw glanfeydd a phierau | Dim data | Dim data | Dim data | £31,440.00 | £12,600.00 | £9,750.00 | £13,830.00 | **£67,620.00** |
| Samplu cydio o wely'r môr | Dim data | Dim data | Dim data | £0.00 | £2,640.00 | £13,140.00 | £1,680.00 | **£17,460.00** |
| Carthu cynnal a chadw at ddibenion mordwyo | Dim data | Dim data | Dim data | £0.00 | £8,130.00 | £0.00 | £0.00 | **£8,130.00** |
| Cael gwared ar dywod a chwythwyd gan y gwynt | Dim data | Dim data | Dim data | £0.00 | £2,790.00 | £360.00 | £1,590.00 | **£4,740.00** |
| **Cyfanswm y gost, wedi'i gyfrifo ar sail £120 yr awr o 2020 ymlaen:** | | | | | | | | **£97,950** |

**Tabl 3. Costau i ddeiliaid trwyddedau ac CNC sy'n gysylltiedig â chyflawni amodau'r drwydded**

| | **Nifer a chost ffi sefydlog** | **Cyfanswm y gost** |
|---|---|---|
| Cost i ddeiliad y drwydded (rhwng 2017 a 2023) | 8 x £480 | **£3,840** |
| Cost i CNC (rhwng 2020 a 2023) | 7 x £480 | **£3,360** |

**Tabl 4. Costau i ddeiliaid trwyddedau ac i CNC yn ymwneud ag amrywiadau neu drosglwyddo trwyddedau morol ar gyfer gweithgareddau a gynigir fel esemptiad newydd**

| **Gweithgaredd** | **Nifer yr amrywiadau / trosglwyddo trwyddedau** | **Cost i ddeiliad y drwydded rhwng 2017 a 2023** | **Amser prosesu / oriau CNC** | **Gwir gost i CNC (yn seiliedig ar £120 yr awr o 2020 ymlaen)** |
|---|---|---|---|---|
| Amrywiad 0 – dim ffi | 3 | Dim tâl | 25 | **£2,970.00** |
| Amrywiad 1 (newid gweinyddol – £240) | 4 | **£960.00** | 8 | **£960.00** |
| Amrywiad 2 (newidiadau cymhleth – £120 yr awr) | 5 | **£2,790.00** | 23.25 | **£2,790.00** |
| Amrywiad 3 (newid rheolaidd – ffi sefydlog o £480) | 10 | **£4,800.00** | 45.50 | **£5,460.00** |
| Trosglwyddiadau = wedi'u cynnwys yn y ffigurau amrywiad | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | | **£8,550** | | **£12,180.00** |

**Tabl 5. Arbedion cost blynyddol bras i ymgeiswyr a deiliaid trwydded a chostau CNC**

| Gweithgaredd | Arbed costau i ymgeiswyr / deiliaid trwydded (rhwng 2017 a 2023) | Costau yr aethpwyd iddynt gan CNC (rhwng 2020 a 2023) |
|---|---|---|
| Cais | £93,120 | £97,950 |
| Cyflawni amod trwydded | £3,840 | £3,360 |
| Amrywio/trosglwyddo trwydded | £8,550 | £12,180 |
| **Cyfanswm** | **£105,510** | **£113,450** |
| | ÷ 6.75 blwyddyn | ÷ 4 blwyddyn |
| | | |
| **Prif gyfanswm** | **£15,631** | **28,373**<br><br>**-£15,631 (ffioedd ymgeiswyr)**<br><br>**= £12,742** |